

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/3261/17

At:

Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Anfonir copi at:

Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

10 Hydref 2017

Mewn Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, rwy'n cyhoeddi heddiw fanylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro 2018-19 ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae'r datganiad hwnnw ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Yn y cyhoeddiad hwn, rwy'n egluro fy mod yn bwriadu gosod cyllid refeniw llywodraeth leol ar gyfer 2018-19 yn £4.186 biliwn. Ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau, bydd gostyngiad o 0.5 y cant yn y cyllid craidd cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn 2018-19 o'i gymharu ar sail gyfatebol â'r flwyddyn bresennol. Gostyngiad arall o 1.5 y cant yw'r setliad dangosol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Yn y setliad, rwy'n rhoi blaenoriaeth i gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, fel addysg a gofal cymdeithasol. Mae rhoi £62 miliwn arall i elfen ysgolion y setliad yn 2018-19 yn sicrhau bod gwariant cyllid craidd tybiedig Llywodraeth Cymru ar ysgolion yn aros ar yr un lefel â 2017-18. Bydd y ffigur hwn yn cynyddu i £108 miliwn yn 2019-20, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau i fuddsoddi mewn addysg ac i flaenoriaethu cyllid i ysgolion mewn setliad sy'n dynnach yn gyffredinol.

Rwy'n rhoi £42 miliwn arall i elfen gofal cymdeithasol y setliad yn 2018-19. Golyga hyn fod gwariant cyllid craidd Llywodraeth Cymru ar ofal cymdeithasol yn cael ei gynnal ar yr un lefel â 2017-18. Bydd yr elfen hon yn cynyddu ymhellach i £73 miliwn yn 2019-20, gan adlewyrchu, hyd yn oed pan fo'r setliad cyffredinol yn dynnach, ein bod ni'n cydnabod bod angen buddsoddi mewn gofal cymdeithasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol ag un o'm ymrwymïadau yn *Symud Cymru Ymlaen*, rwyf wedi darparu £1.77 miliwn o gyllid i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod yn gweld gostyngiad o fwy na 1.0 y cant o'i gymharu â'i ddyraniad a'i gyllid atodol ar gyfer 2017-18.

Mae'r setliad hwn yn cynnwys mwy na £90 miliwn sy'n cael ei ddarparu ar ffurf grantiau penodol yn ystod y flwyddyn hon. Yn rhan o'r swm hwnnw, mae £30 miliwn yn cael ei ddarparu fel grantiau gofal cymdeithasol, £27 miliwn yn cael ei ddarparu eisoes ar gyfer y Grant Byw'n Annibynnol a £35 miliwn ar gyfer y Grant Refeniw Sengl. At hynny, mae £6 miliwn arall ohono yn cael ei ddarparu ar gyfer atal digartrefedd, sy'n ychwanegol i'r £6 miliwn a ddarparwyd gennym yn 2017-18.

Mae'r cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo yn parhau ar yr un lefel â 2018-19, sef £143 miliwn.

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a'r tablau cysylltiedig sy'n cynnwys manylion y setliad dros dro yn ôl awdurdod lleol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys y dyraniadau Cyllid Allanol Cyfun fesul awdurdod, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig wedi'u hail-ddosbarthu.

Mae'r setliad dros dro yn tynnu ar ffigurau'r sylfaen drethu ar gyfer 2017-18. Bydd gwybodaeth wedi'i diweddarau ar gael ar gyfer y setliad terfynol yn seiliedig ar ddatganiadau CT1 awdurdodau lleol ar gyfer 2018-19.

I gyd-fynd â'r agwedd dau gam a fabwysiadwyd at gyhoeddi Cyllideb Llywodraeth Cymru, byddaf yn cyhoeddi'r wybodaeth sydd i'w chael am grantiau refeniw a chyfalaf sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2018-19 ar ein gwefan ar 24 Hydref. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau ymhellach ar gyfer y setliad terfynol.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn nodi lansio cyfnod ymgynghori ffurfiol 6 wythnos ar y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2018-19. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn cyrraedd erbyn **dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017**. Dylid anfon pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn at:

Simon Edwards

Y Gangen Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Neu anfonwch e-bost at: LocalGovernmentSettlement@gov.wales.

Gwahoddir sylwadau am yr effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n niweidiol) y byddai'r setliad arfaethedig yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gwahoddir sylwadau hefyd a ellid ailwampio neu adolygu'r setliad arfaethedig i gael effeithiau cadarnhaol, neu i leihau'r effeithiau niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb.


Gall copïau o ymatebion gael eu rhoi yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os ydych yn dymuno i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech nodi hyn yn glir yn eich ymateb. Bydd hyn yn cael ei ystyried gan gydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob ymateb a dderbynnir erbyn y dyddiad cyflwyno cyn gwneud y penderfyniad terfynol a'i gyhoeddi.

Caiff awdurdodau lleol eu hatgoffa o'r gofyniad i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol hefyd lle y bônt yn berthnasol. Dylid asesu effaith yr opsiynau cyllidebol ar gydraddoldeb a dylai hyn lywio unrhyw benderfyniadau terfynol.

Rhaid i awdurdodau hefyd ystyried eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg wrth baratoi cynlluniau ar gyfer 2018-19.

Mae'r setliad dros dro hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynllunio eich cyllidebau ar gyfer 2018-19. Byddwn yn argymhell yn gryf y dylech ystyried sut y bydd orau ichi ymgysylltu â'ch cymunedau lleol i lunio eich cynigion a gwneud eich penderfyniadau cyllidebol.

In gywir,



Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

